

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 – Y Diweddraf am Weithredu'r Ddeddf

Beth	Beth mae'n ei olygu	Pryd y bydd yn dod i rym	Ble galla i gael rhagor o wybodaeth
Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) – mae pob darpariaeth mewn grym	<p>Mae pob darpariaeth o'r Ddeddf Cynllunio ynghylch CDSau, gawn gynnwys eu paratoi a'u hadolygu, mewn grym.</p> <p>Diddymodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 adrannau perthnasol y Ddeddf Gynllunio fel bod y cyfrifoldeb dros baratoi CDSau yn nwylo'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CBCau) ac nid Paneli Cynllunio Strategol (PCSau).</p>	<p>5 Hydref 2015 (gan gyfeirio at y dyddiad dod i rym ar gyfer y Gorchymyn Cychwyn Rhif 1)</p> <p>7 Ionawr 2021 (gan gyfeirio at y dyddiad dod i rym ar gyfer y Gorchymyn Cychwyn Rhif 7)</p>	<p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015</p> <p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 7) 2021</p>
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – mae pob darpariaeth mewn grym)	<p>Cymru'r Dyfodol yw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Cymru. Mae'r holl ddarpariaethau yn y Ddeddf Gynllunio sy'n ymwneud â'r FfDC, gan gynnwys ei pharatoi a'i hadolygu, mewn grym.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am Cymru'r Dyfodol ar gael ar adran Cymru'r Dyfodol o wefan Llywodraeth Cymru.</p>	<p>4 Ionawr 2016 (gan gyfeirio at y dyddiad dod i rym ar gyfer y Gorchymyn Cychwyn Rhif 2)</p> <p>4 Rhagfyr 2020 (gan gyfeirio at y dyddiad dod i rym ar gyfer y Gorchymyn Cychwyn Rhif 6)</p>	<p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015</p> <p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 6) 2020</p> <p>Adran Cymru'r Dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru</p>
Deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg ym maes cynllunio	<p>Mae adran 11 o'r Ddeddf Cynllunio mewn grym, ac mae'n ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol, wrth baratoi neu ddiwygio'r cynllun datblygu lleol, ystyried yr effaith debygol y bydd y polisiau a'r safleoedd a ddyrennir yn ei chael ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ei ardal.</p> <p>Mae adran 31 mewn grym hefyd, ac mae'n egluro bod modd ystyried yr iaith wrth wneud penderfyniadau os yw'n berthnasol i'r cais.</p>	<p>4 Ionawr 2016</p>	<p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015</p>



Cynlluniau Datblygu Lleol	<p>Cafodd adrannau 12, 13 a 14 o'r Ddeddf Cynllunio eu cychwyn gan Orchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015 fel y bo modd gwneud rheoliadau sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none">- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol i baratoi cynllun datblygu lleol (CDLI) ar y cyd.- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw cyn y ceir tynnu CDLI yn ôl.- Cyflwyno dyddiad dod i ben ar gyfer CDLIau.	4 Ionawr 2016	Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015
Deddfwriaeth newydd i roi cyfle i awdurdodau cynllunio reoli twf Tai Amfeddiannaeth yn y dyfodol	<p>Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cyflwyno dosbarth defnydd newydd (C4) ar gyfer tai amfeddiannaeth sydd â hyd at 6 o bobl yn byw ynddynt. Bydd hyn yn golygu y byddai'n rhaid i unrhyw un sydd am greu tŷ amfeddiannaeth newydd ar gyfer rhwng tri a chwech o unigolion nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, ond sy'n rhannu cyfleusterau sylfaenol fel cegin neu ystafell ymolchi, wneud cais am ganiatâd cynllunio. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau cynllunio nodi tai amfeddiannaeth ac ystyried effaith bosibl yr anheddau hynny ar yr ardal cyn penderfynu a ddylent gymeradwyo cais cynllunio ai peidio.</p>	25 Chwefror 2016	Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Gweithdrefnau Rheoli Datblygu Newydd (Mawrth 2016)
Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	<p>Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn sefydlu proses newydd ar gyfer cymeradwyo Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd y broses hon yn sicrhau bod penderfyniadau am y prosiectau seilwaith hynny a fydd yn fwyaf arwyddocaol i Gymru yn cael eu gwneud ar lefel genedlaethol, ac yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdodau cynllunio lleol. Bydd y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn fodd i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn cyfnod amser statudol, gan greu sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau, a chan ysgogi twf economaidd.</p>	1 Mawrth 2016	Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Mawrth 2016) Ewch i dudalennau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wefan Llywodraeth Cymru.



<p>Gweithdrefnau rheoli datblygu newydd (gan gynnwys prosesau cyn-ymgeisio)</p>	<p>Mae deddfwriaeth mewn grym sy'n cyflwyno nifer o newidiadau i'r gweithdrefnau rheoli datblygu presennol.</p> <p>Yn benodol, mae'n diwygio Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 er mwyn cyflwyno'r gofyniad i ddatblygwr sy'n cynnig datblygiad mawr fynd ati, cyn cyflwyno cais, i ymgynghori â'r cyhoedd, cynghorau tref a chymuned ac ymgynghoreion statudol, ac yna ystyried eu sylwadau cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae hefyd yn cyflwyno newidiadau sy'n ymdrin â'r materion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwasanaethau cyn-ymgeisio a gynigir gan awdurdodau cynllunio lleol - Datganiadau Dylunio a Mynediad - Ymgynghori mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau - Ceisiadau annilys: hysbysu ac apelio - Diwygio cais ar ôl ei gyflwyno - Hysbysiadau penderfynu - Hysbysu am y bwriad i ddatblygu ac arddangos yr hysbysiad - Trothwyon ymgynghori ag ymgynghoreion statudol (gan gynnwys ymgymerwr carthffosiaeth a dŵr), - Ceisiadau adran 73 (i ddileu neu amrywio amod cynllunio) - Gorchymynion datblygu lleol - Gorchymyn dosbarthiadau defnydd a datblygu a ganiateir (gan gynnwys tai amlfeddiannaeth) - Gorfodi - Rheoliadau asesiad o effeithiau amgylcheddol. 	<p>16 Mawrth 2016</p>	<p>Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Gweithdrefnau Rheoli Datblygu Newydd (Mawrth 2016)</p> <p>Y Llawlyfr Rheoli Datblygu</p>
<p>Cydfyrddau Cynllunio</p>	<p>Mae nifer o ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chydfyrddau cynllunio, ac sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol i uno. Mae darpariaethau yn y Ddeddf Cynllunio mewn grym sy'n estyn ac yn helaethu'r pwerau presennol hynny. Mae'r newidiadau'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o ran y mathau o gyrff a gaiff gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol awdurdod cynllunio lleol, a hynny er mwyn sicrhau gwasanaethau cynllunio effeithlon, effeithiol a chadarn ym mhob cwr o Gymru.</p>	<p>16 Mawrth 2016</p>	<p>Adran 4.2 o'r Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol</p> <p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015</p>
<p>Diben Statudol ar gyfer y System Gynllunio</p>	<p>Mae adran 2 o'r Ddeddf Cynllunio yn nodi diben statudol ar gyfer cynllunio yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, wrth iddynt ymgymryd ag unrhyw gynllun datblygu neu swyddogaeth rheoli datblygu, gyfrannu at wella llesiant Cymru wrth gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Llesiant").</p>	<p>1 Ebrill 2016</p> <p>Mae hyn yn digwydd ar yr un pryd ag y bydd y darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf Llesiant yn dod i rym.</p>	<p>Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Gorchymynion Cychwyn Rhif 1 a 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015</p>



Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio	<p>Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn pennu maint a chyfansoddiad pwyllgorau neu is-bwyllgorau cynllunio.</p> <p>Mae rheoliadau sy'n ategu'r Ddeddf Cynllunio a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 wedi'u llunio, sy'n mynnu bod pwyllgorau cynllunio yng Nghymru'n cael eu strwythuro a'u gweithredu yn unol â'r gofynion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">- Bod o leiaf 11 aelod mewn pwyllgor a dim mwy na 21 aelod, a dim mwy na 50% ohonynt yn aelodau o'r awdurdod.- Pan fydd mwy nag un aelod etholedig mewn ward, dim ond un aelod a ganiateir i fod ar y pwyllgor.- Rhaid i bob pwyllgor cynllunio gael cworwm o 50% o leiaf er mwyn gwneud penderfyniadau.- Gwahardd defnyddio dirprwyon fel aelodau.	5 Mai 2017	<p>Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017</p> <p>Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio</p>
Apeliadau	<p>Mae deddfwriaeth wedi dod i rym ym mis Mai 2017, sy'n newid gweithdrefnau ar gyfer rhai apeliadau, er mwyn symleiddio'r broses, a gwella'r cysondeb a'r sicrwydd i bob parti. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- Cadarnhau'r prosesau ar gyfer apeliadau er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i edrych yn fanwl ar apeliadau mewn ffordd gymesur- Ei gwneud yn ofynnol i apelwyr gyflwyno datganiad llawn o'r achos ar y cychwyn- Dileu'r gallu i ymgeisydd amrywio cais, neu godi materion newydd, unwaith mae apêl wedi'i chyflwyno- Newid yr awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch apeliadau yn erbyn hysbysiadau	5 Mai 2017	<p>Llythyr, Annwyl Brif Swyddog Cynllunio: Apeliadau, Costau, Symiau Dyddiol Safonol a Gorchymynion Prynu Gorfodol (Mai 2017)</p>
Meysydd trefi a phentrefi	<p>Mae Adrannau 52 - 54 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Deddf Tiroedd Comin 2006 er mwyn galluogi perchenogion tir i adneuo datganiadau i'w hawdurdodau cofrestru tir comin. Byddai hyn, i bob pwrpas, yn dwyn i ben unrhyw gyfnod o ddefnyddio tir at ddibenion hamdden drwy hawl.</p> <p>Byddai effaith y cynigion hyn yn golygu na all cais gael ei gyflwyno i'r tir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref lle y caiff datganiad ei adneuo i awdurdod cofrestru tir neu ei ddilysu ganddo (yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau trosiannol neu ddigwyddiadau sbarduno/terfynu).</p>	22 Hydref 2018	<p>Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif .5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2018</p> <p>Rheoliadau Meysydd Trefi a Phentrefi (Datganiadau Perchenogion Tir) (Cymru) 2018</p>